

Cyngor Cymuned Llanystumdwy,

Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar nos Iau, Ebrill 6ed, 2017 yn Ffestri Capel Pencaenewydd.

Yn bresennol: Y Cyngorwyr Marian Evans, (Cadeirydd); William Ifor Hughes; Aled Lloyd Evans; Ifor Wyn Davies; Margaret Griffith; Sian Angharad Parry; Tegid Jones; Thomas Prys Jones; Trefor Wyn Jones; Anwen Jones a'r Clerc.

1. Ymddiheuriadau. Y Cyngorwyr Gwilym M Thomas, (Is gadeirydd); Naomi Jones a Dafydd Williams.

2. Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar Fawrth 2il, 2017 yn Ystafell Myrddin, Neuadd Goffa Chwilog.

3. Arwyddwyd cadarnhad y taliadau BACS gan y Cadeirydd.

4. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.

5. Datgan buddiant personol. Neb yn datgan buddiant personol.

6. Y Cyngorwyr sydd yn rhoi gorau iddi.

Mae'r Cyngorwyr canlynol wedi penderfynu peidio rhoi eu henwau ymlaen i weithredu fel cyngorwyr am y pum mlynedd nesaf sef Ward Llangybi, y Cyngorwyr Ifor Wyn Davies; Ward Llanarmon, y Cyngorwyr Gwilym M Thomas, (Is gadeirydd) a Dafydd Williams; Ward Llanystumdwy, y Cyngorwyr Alwen Evans ac Elis Gwyn Jones.

Mae'n ymddangos bod papur enwebu'r Cyngorwyr Aled Lloyd Evans wedi mynd ar goll! Penderfynwyd diolch i'r Cyngorwyr yma am eu gwaith dros y Cyngor ac y bydd colled ar eu hôl. Diolchodd y Cyngorwyr Ifor Wyn Davies ar ran y rhai sydd am roi gorau iddi a diolchodd yntau i'r rhai sydd wedi penderfynu cario ymlaen.

7. Cyngor Gwynedd.

1. Cefnogaeth Gorfforaethol; Adolygiad y Comisiwn Ffiniau Etholaethol yng Ngwynedd. Penderfynwyd cysylltu i ofyn ydi'r newidiadau yn effeithio ar y Cyngor yma gan bod y niferoedd o etholwyr yn ddigonol.

2. Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Gwasanaeth Rheoli Gwastraff a Strydoedd; Llanast gyferbyn â'r Ffatri Laeth. Penderfynwyd anfon yn dweud bod sbwriel yn dechrau crynhoi eto a gofyn eto am i arwydd gael ei roi fyny ar y safle yn gofyn i bobl fynd â'u hysbwriel adref efo nhw.

3. Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Materion y Gymuned; Ffordd heibio Capel y Beirdd, Ffordd heibio Ysgubor Hen tua Fferm Penybryn, Arwyddion Amrywiol. Penderfynwyd derbyn.

4. Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol); Y Pwyllgor Safonau – Penodi Aelod.

Penderfynwyd ateb i ddweud bod y Cyngor yma'n siomedig eu bod yn anfon at gynghorau unigol yn hytrach na drwy Un Llais Cymru.

5. Archwiliad Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd; Sesiynau gwrandawiadau – Newidiadau Materion sy'n codi. Penderfynwyd gofyn pa fanylion ychwanegol mae'r Arolygydd angen gan y Cyngor yma. Ni fydd y Clerc yn gallu mynychu'r gwrandawriad yng Nghaernarfon ar ddydd Mercher, Ebrill 26ain. Bydd y Cyngorwyr Margaret Griffith a Thomas Prys Jones yn cynrychioli'r Cyngor yn y cyfarfod.

6. Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Groeslon Dilwyn i Stesion Llangybi – Gwaith Ailwynebu. Derbyniwyd ond cysylltu gyda'r Adran Gwasanaeth Priffyrdd i ofyn ydynt wedi rhoi gwybod am y gwaith yma i gwmni Cybi Cyf.?

7. Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Rhaglen Waith Trafnidiaeth a Priffyrdd mis Ebrill 2017. Penderfynwyd derbyn.

8. Adran Rheoleiddio, Gwasanaeth Cynllunio; Arwydd ger y fynedfa i safle Tyddyn Morthwyl Camping Site, Rhoslan. Ymddengys bod y Swyddog

Gorfodaeth yn disgwyl am ymateb swyddog o Adran Drafnidiaeth y Cyngor cyn symud ymlaen. Penderfynwyd rhoi'r eitem yma ar raglen waith cyngor mis Mai.

*Trwy Ganiatad y Cadeirydd:

9. Ad-daliad am gynnal hawliau tramwy. Penderfynwyd cadarnhau bod y Cyngor yma am fod yn rhan o'r trefniant ad-dalu yn ystod 2017/18 ac mai'r swm sydd wedi cael ei glustnodi ar gyfer y Cyngor yma ydi £417.80c.

10. Gwasanaeth Cyfreithiol, Par: Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Cau Amryw Ffyrdd yn Ardal Dwyfor) (Gwaharddiad Trafnidiaeth Trwodd Dros Dro) 2017. Penderfynwyd derbyn.

8. Cyngor Gwynedd – Cais Cynllunio yn y gymuned.

1. Cais Rhif: C17/0248/41/LL – Codi adeilad storio newydd; Penarth Fawr, Chwilog. Cefnogwyd.

9. Cartrefi Cymunedol Gwynedd, Stâd Cae Ffynnon, Llanysumdwy. Ymddengys bod tenantiaid yn cyfnewid tai yn rhan o bolisi Cartrefi Cymunedol Gwynedd.

Rydw'i wedi fy hysbysu gan yr adran Gwasanaethau Tenantiaid pan fydd cais i gyfnewid eiddo yn cael ei dderbyn bydd archwiliad perthnasol yn cymryd lle. Mewn achos fel hyn bydd CCG yn cysylltu â derbyn *geirda gan Gymdeithas Tai arall ynglŷn ag unrhyw bryderon am ôl-ddyled rhent/ymddygiad gwrthgymdeithasol a chyflwr eiddo. Mae gan denantiaid CCG yr hawl i gyfnewid gydag unrhyw eiddo Tai Cymdeithasol neu Gyngor yn y Ddeurnas Unedig, cyn belled ag bydd yr achwyniadau perthnasol yn cymryd lle, ac yn dychwelyd yn ôl yn dderbyniadwy/glir. Hefyd, bydd y ddau denant yn derbyn yr eiddo yn y cyflwr a welwyd, gan greu dim cost ychwanegol i CCG.*

Penderfynwyd anfon yn mynegi anfonlonrwydd gyda'r polisi yma ac anfon hefyd at Liz Saville Roberts, AS a Simon Thomas AC.

10. Materion yn y gymuned.

Llanarmon

Llanysumdwy

Materion gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Marian Evans.

1. Y lôn gefn o Dy Newydd i fyny am Gricieth angen clirio'r dail o ochor y ffordd ac o'r ffos sydd uwchlaw iard adeiladu 2, Ty'n Giat i Gae Llo Brith.

2. Y draen ger giat gefn yr amgueddfa wedi blocio.

3. Ger Tan yr Erw, mae gwaelod y ffos wedi cau.

Penderfynwyd anfon at Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd yn gofyn iddynt wneud y gwaith.

Rhoslan

Chwilog

Pencaenewydd/Sardis

Mae coeden yn pwyso yn erbyn un arall rhwng Tanllyn a Drofa ar hyn o bryd, ond y pryder yw y bydd yn disgyn os fydd gwyntoedd cryf eto.

Penderfynwyd anfon at Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd yn tynnu eu sylw at hyn a dweud bod y Clerc wedi ffonio Galw Gwynedd am hyn ar Fawrth 2il.

Llangybi

Materion gan y Cynghorydd Thomas Prys Jones.

Cyflwr rhannau o ffordd Rhosgo rhwng Ynys Creua a'r groeslon am Brychyni yn y pen uchaf, yn enwedig twll anferth peryglus iawn ychydig yn is na'r groeslon honno.

Penderfynwyd anfon at Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd yn gofyn iddynt wneud y gwaith.

11. Copi o lythyr gan Gomisiynydd y Gymraeg at Liz Saville Roberts AS ynghylch Scottish Power. Penderfynwyd derbyn y llythyr yn dweud y bydd y Comisiynydd yn rhoi gwybod os bydd unrhyw newidiadau cadarnhaol yn deillio o'r achos.

12. Gwaith ar y llwybrau, Ebrill 2017 ymlaen.

a. y llwybr swyddogol o Ffynnon Cybi i ben Garn Bentyrch, un toriad.

b. y llwybr dan bont y rheilffordd i'r traeth yn Afonwen, dau doriad.

c. Y llwybr heibio Ynysgain Bach hyd at bont y rheilffordd, dau doriad.

ch. Y llwybr o'r ffordd fawr i fyny at fythynnod Tŷ Newydd, dau doriad.
d. Llwybr Clawdd Llanw o Bontfechan dros y rheilffordd am Ty'n Morfa, dau doriad.
dd. Ceg y llwybr ar hen ffordd Abercin, ochr y pentref i'r ffordd osgoi.

Penderfynwyd gofyn am brisiau i'r canlynol:

Atkin Groundworks Ltd.; Criccieth Cleaning Ltd.; Mr Clifford Hughes a Trefn, y Clerc i wneud y trefniadau.

13. Cadw safle bedd D Lloyd George yn daclus yn ystod y tymor.

Penderfynwyd gofyn i Mr Gareth Jones, Caeathro wneud y gwaith eto eleni.

14. Derebyniwyd y llythyrau/e byst yn diolch am gymorth ariannol

1. Eisteddfod Gadeiriol Chwilog.
2. Mynwent Capel Helyg.
3. Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn 2017.
4. Dawns i Bawb.
5. Cymdeithas Parêd Dewi Sant, Pwllheli.
6. Shelter Cymru.
7. Mynwent Newydd Llanystumdwy.
8. Theatr Bara Caws.
9. Clwb Ffermwyr Ifanc Llanybi.
10. Cyngor ar Bopeth.

Heb glywed dim oddi wrth Pwyllgor Mynwent Tai Duon ond maent wedi mynd â'r siec i'r banc.

15. Llythyr gan drethdalwr ynghylch pentref Llanystumdwy.

Penderfynwyd gofyn am arweiniad i Swyddog Monitro Cyngor Gwynedd.

Materion Ariannol.

16. Derbyniwyd taliad cyntaf oddi wrth Lightsource ynghylch fferm solar Tyddyn Gwyn, Gelli Gron Estate i'r Cyfrif Budd Cymunedol, £3,596.99c.

17. Adroddiad ariannol ar lafar. Rhoddodd y Clerc adroddiad fanwl o'r union sefyllfa ariannol, bod y gwariant yn unol â'r gyllideb bennwyd ac nad oes peryg o or wario a'r Cyngor yn mynd i ddyled.

18. Llythyr oddi wrth Un Llais Cymru ynghylch dogfennau gan BDO. Penderfynwyd derbyn argymhelliad i beidio cyfieithu unrhyw ddogfennau ar hyn o bryd nes y ceir cadarnhad terfynol o'r sefyllfa gan Swyddfa Archwilio Cymru, BDO neu Un Llais Cymru gan bod y Cyngor yma yn gweithredu yn uniaith Gymraeg.

19. Penodi Archwiliwr Mewnol a'r trefniadau ar gyfer archwilio cyfrifon 2016-17.

Penderfynwyd gofyn i Mr John D Roberts, CPFA, Cyfrifydd ac Archwiliwr, Caernarfon i wneud y gwaith unwaith eto.

20. Anfonebau angen eu talu:

a. Mr J D Roberts, CPFA, Cyfrifydd ac Archwiliwr; Tâl am archwilio cyfrifon y Cyngor am y flwyddyn 2015-16 ynghyd â pharatoadau mewn perthynas â chyflwyno Adroddiad Flynyddol i'r Archwiliwr Allanol; £69-, Taliad Siec. Penderfynwyd ei dalu, siec rhif:100958.

b. Aelodaeth Un Llais Cymru 2017/18; £270-, Taliad BACS. Penderfynwyd ei dalu, cyfeirnod:1300/NORTH.

c. Delwedd Ltd; Costau Lletya Blynyddol a Chynhaliaeth Blynyddol, £359.40c + TAW = £431.28c, Taliad Bacs. Penderfynwyd ei dalu, cyfeirnod: CYLLANYSTUMDWY 001.

21. Arwyddo sieciau ar ran y Cyngor. Mae dau o'r rhai oedd yn arwyddo sieciau wedi penderfynu peidio parhau fel Cynghorwyr ac felly mae angen dau enw at y Cynghorydd Marian Evans i arwyddo sieciau ar ran y Cyngor. Penderfynwyd enwebu'r Cynghorwyr Sian Angharad Parry ac Aled Lloyd Evans; y Clerc i wneud y trefniadau gyda'r banc.

22. Cyflog y Clerc; o Ebrill 1af, 2017, symud i fyny ar y raddfa o SCP 20 i SCP 21 sef £10.467c yr awr x 30 awr y mis x 12 mis = £3,768.12c y flwyddyn. Penderfynwyd derbyn.

It is possible to get a translation of any minute; contact the Clerk.